

Myfyrdod ar Ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol

Cawsom gyfle yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol i gyfrannu at waith yr elusen. Yn awr ar ddiwedd yr wythnos cawn gyfle i atgoffa ein hunain o'r gwaith mawr yr ydym yn rhan ohono pan ddown at ein gilydd i gefnogi gwaith yr elusen. Cofiw'n fod Cymorth Cristnogol ac elusennau tebyg yn

gweithio ar ein rhan ni fel enwad, ni fel cynulleidfaoedd, ni fel unigolion yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y byd. Yn y llefydd na allwn ni fynd iddyn nhw fe fydd gweithwyr dyngarol yn gweithio i ddileu tlodi a'i effeithiau. Ein braint yw cefnogi, cynorthwyo a gweddïo drostynt.

Mair a Jebbeh

'Dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.' Luc 2:7

Mae'n ychwanegu at ryfeddod yr Ymgnawdoliad fod Iesu wedi dewis dod i'r byd mewn ffordd mor fregus, fel plentyn i ferch yn ei harddegau. Mae'r perygl o farwolaeth mewn genedigaeth ym Methlehem ar adeg geni Iesu yn gwneud hyn yn syniad mwy rhyfeddol byth i'w ystyried. Ac eto mae'r ffaith i'r Iesu hwn, y Gair a ddaeth yn gnawd, ddod i'r byd yn y ffordd fregus hon yn dweud wrthym ei fod yn fodlon uniaethu ei hun â phoen y byd hwn yn ei fywyd yn ogystal â'i farwolaeth. Mae Jebbeh yn y llun yn disgwyl dyfodiad ei phlentyn. Mae'n gwybod yn iawn am y risg a wyneba: bu'n rhaid i'w chwaer Fatmata gerdded am filltiroedd, o dan haul crasboeth, i'r ysbyty lleol pan oedd ar fin esgor. Gyda phob cam, roedd Fatmata yn bryderus am ei bywyd hi a bywyd ei babi. Yn drist iawn,

dywedodd Jebbeh wrthym, 'Roedd fy chwaer yn llwglyd iawn. Bu farw ar ymyl y ffordd. Ddarw hi ddim rhoi genedigaeth.'



Trwy ysbrydoliaeth ac esiampl y babi mwyaf rhyfeddol ohonynt i gyd, cawn ein gwahodd i eistedd, sefyll a cherdded mewn undod gyda Jebbeh a holl famau beichiog Sierra Leone ac o gwmpas y byd lle mae'r risg o roi genedigaeth yn gymaint mwy.

Cymerwch amlen Wythnos Cymorth Cristnogol a rhowch ef i gymydog, ffrind neu ddieithryn a chyd-sefwch dros gyfiawnder, cydraddoldeb ac urddas gyda

mamau beichiog ym mhob man. A byddwch ddiolchgar y gallwn weddio gyda'r Salmudd: 'Ti ddaeth â fi allan o'r groth. Ti wnaeth i mi deimlo'n saff ar fron fy mam.' Salm 22:9. (O wefan Cymorth Cristnogol)

Gweddïo y mateb

Arglwydd, diolchwn i ti dy fod wedi caru'r byd bregus, dolurus hwn gymaint nes i ti dy hun ymweld â ni mewn baban, gan rannu gyda ni ein meidroldeb, ein pryderon, ein gobeithion. Daethost yn gnawd. Daethost yn fod dynol. Daethost atom i ganol ein gwendid, i ganol anghyfiawnder byd. Daethost atom gan wasanaethu'r mwyaf distadl, y mwyaf truenus. Daethost nid i'th wasanaethu ond i wasanaethu ac i roi dy einioes yn bridwerth dros lawer. Dysga ninnau i ddilyn patrwm, esiampl, dysgeidiaeth a chyfeiriad grasol ein Harglwydd mewn ufudd-dod llawen ac mewn gwasanaeth llawn urddas.

Trwy Iesu Grist, Amen.

(Gweddïo y Golygydd)

Diolch am gyfraniad oes

Mewn oedfa yng Nghapel Salem, Caerdydd ar fore Sul y 5ed o Fai cafwyd cyfle i ddathlu fod y Parchedig Dafydd Owen wedi cwblhau cyfnod o chwe deg mlynedd yn y weinidogaeth. Cyflwynwyd tocyn llyfr iddo ef a thusw hardd o flodau i'w briod Mrs Brenda Owen gan weinidog yr eglwys, y Parch Evan Morgan, i nodi'r achlysur. Cyfeiriodd Evan at gyfraniad sylweddol y Parch Dafydd Owen dros y blynyddoedd fel gweinidog a gweinyddwr a dywedodd hefyd gymaint o ffrind a oedd hi iddo yntau gael bod yn weinidog arnynt yn Salem.

Yn ei ymateb dywedodd y Parch Dafydd Owen pa mor y ffodus y bu i gael gwasanaethu ei Arglwydd a'i enwad mewn cymaint o wahanol gyfeiriadau a hynny am gynifer o flynyddoedd. Bu'n gweinidogaethu yn Llansteffan a Bancyfelin cyn symud i Gaerdydd. Oddi yno aeth i Goleg y Bala fel Caplan Ieuenctid cyntaf y Cyfundeb a thrwy ei waith arloesol llwyddwyd i osod sylfeini

cadarn i waith ieuenctid yn y Bala ac, yn ddiweddarach, i'r cyfundeb yn gyffredinol. O'r Bala aeth i Gaerdydd fel Ysgrifennydd Bwrdd y Genhadaeth ac ymhen tair blynedd penodwyd ef yn Ysgrifennydd Cyffredinol EBC. Yn y swydd hon cafodd gyfle i deithio'n eang a chael cyfarfod ag arweinwyr rhyngwladol megis Nelson Mandela yn ogystal â chydweithio ag arweinwyr eglwysig megis y Cardinal Basil Hume a'r Archesgob Robert Runcie.



Ar ôl ymddeol, yn dilyn cyfnod llwyddiannus iawn fel gweinyddwr, penderfynodd ef a Brenda symud i Lundain i ofalu am eglwys i'r cyfundeb yn y ddinas. Yna dychwelyd i Gaerdydd a phenderfynu gofalu am eglwys Ebeneser a Havelock Street yng Nghasnewydd cyn ymddeol o'i ddyletswyddau a chanolbwyntio ar bregethu'r Gair.

Trwy gydol ei yrfa amrywiol bu Brenda yn gefn ac yn graig iddo a bu ei chariad a'i gofal drosto yn allweddol i'w lwyddiant dros y trigian mlynedd diwethaf. Tim ardderchog!

Glyn Williams